# Cyngor Sir Ddinbych

## Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

### Adran 43

Rhoddir rhybudd drwy hyn, yn unol ag Adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion bod Cyngor Sir Ddinbych o Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1YN (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor"), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yn ôl yr angen, yn cynnig: -

- **Cau Ysgol Llanbedr, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1SU.**

Mae Ysgol Llanbedr yn ysgol gynradd wirfoddol a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru ac a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ar www.sirddinbych.gov.uk/moderneiddioaddysg

## Bwriedir gweithredu'r cynigion 31 Awst 2014

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnig y gall disgyblion presennol drosglwyddo i Ysgol Borthyn, Rhuthun (2.1 milltir o Ysgol Llanbedr) sy'n rhoi darpariaeth amgen gynradd wirfoddol, a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru, drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn amodol ar ddewis y rhieni a gall rhieni fynegi dewis mynd â'u plant i ysgol arall a bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis o'r fath yn ddarostyngedig i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 86 (3).

Bydd trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion yn cael eu penderfynu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gan y Cyngor ar y dyddiad gweithredu.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw, erbyn **25 Chwefror 2014** gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Jackie Walley, Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN, neu drwy e-bost at moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir o fewn y cyfnod gwrthwynebu (sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â sylwadau'r Cyngor ar hynny, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

**Jackie Walley**
**Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg**
**Ar ran Cyngor Sir Ddinbych** Dyddiedig 29 Ionawr 2014

**Nodyn Esboniadol**
(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond caiff ei gynnig fel eglurhad)
1. Mae'r Cyngor yn cynnig cau Ysgol Llanbedr, o 31 Awst 2014. Mae Ysgol Llanbedr yn ysgol gynradd wirfoddol cyfrwng Saesneg a reolir gan yr Eglwys yng Nghymru.
2. Mae'r cynnig yn un o chwech a nodwyd drwy'r 'Adolygiad o Ddarpariaeth Ysgolion Cynradd yn Ardal Rhuthun' a gynhaliwyd gan y Cyngor i fynd i'r afael â materion gan gynnwys recriwtio Pennaeth, lleoedd dros ben, gofod symudol a chynaliadwyedd ysgolion.
3. Ar ddyddiad y cyfrifiad ysgol diwethaf ym mis Ionawr 2013, roedd gan Ysgol Llanbedr 21 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr yn erbyn lle i 54 o ddisgyblion llawn amser. Mae hyn yn cyfateb i 61.9% o leoedd dros ben. Ar ddyddiad y flwyddyn academaidd newydd, Medi 2013, roedd gan Ysgol Llanbedr 21 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr yn erbyn lle i 54 o ddisgyblion llawn amser. Mae hyn yn cyfateb i 61.9% o leoedd dros ben.
4. Roedd y rhesymeg dros y cynnig hwn wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori a ddosbarthwyd ym mis Tachwedd 2013, ac mae mwy o gopïau ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir uchod.
5. Mae copi o Bolisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor ar gael gan Foderneiddio Addysg ar y cyfeiriad yn yr Hysbysiad uchod.
6. Mae copi o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gan y Cyngor ar gael gan Foderneiddio Addysg ar y cyfeiriad yn yr Hysbysiad uchod.
7. Mae'r Hysbysiad hwn yn nodi dechrau cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o **29 Ionawr 2014 hyd at 25 Chwefror 2014** ac yn nodi'r cyfeiriad y gallai gwrthwynebiadau ysgrifenedig gael eu cyflwyno.